

Ar waith:
Canllaw ar grefydd,
gwerthoedd personol
a chredoau

**Mehefin
2017**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

Cynnwys

Ynglŷn â'r canllaw hwn.....	4
Y fframwaith cyfreithiol.....	6
1. Crefydd, gwerthoedd personol a chredoau mewn fferylliaeth.....	7
1.1 Cymryd cyfrifoldeb.....	8
2. Ffactorau i'w hystyried.....	9
2.1 Lleoliad gwaith ac ystod o wasanaethau.....	9
2.2 Agoredrwydd rhwng y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'u cyflogwr.....	9
2.3 Gwneud gofal yr unigolyn yn flaenoriaeth.....	9
2.4 Trafod ceisiadau yn sensitif.....	10
3. Cwestiynau i'w gofyn i'ch hun.....	11
4. Cyflogwyr a gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cydweithio.....	12
Ffynonellau eraill gwybodaeth.....	13

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Rhan o'n rôl yw gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni drwy gydol eu gyrfa.

Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu bodloni.

Mae'n rhoi arweiniad pellach i weithwyr fferyllol proffesiynol ar gymhwyso safon 1, pan y gall eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth gymhwyso'r canllaw hwn yn ymarferol er mwyn gallu cyfiawnhau eu penderfyniadau. Ni all y canllaw gwmpasu pob sefyllfa ac nid yw'n rhoi cyngor cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â chydarddoldeb. Fodd bynnag, mae'n nodi'r ffactorau allweddol i weithwyr fferyllol proffesiynol eu hystyried wrth gymhwyso'r safonau yn y cyd-destun hwn.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fodloni eu hunain bod pob aelod o'r tîm yn gyfarwydd â'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y canllaw hwn ac yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau mewn fferylliaeth.

Dywed Safon 1:

Mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn

Cymhwyso'r safon

Mae pob person yn unigolyn gyda'i werthoedd, ei anghenion a'i bryderon ei hun. Darperir gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac yna'n addasu'r gofal er mwyn diwallu ei anghenion - gan wneud gofal yr unigolyn yn brif flaenoriaeth iddynt. Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol ddangos 'gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn', boed a yw'n darparu gofal yn uniongyrchol ai peidio, drwy feddwl am yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl. Mae nifer o ffyrdd y gellir bodloni'r safon hon, ac isod ceir enghreifftiau o'r agweddau a'r ymddygiadau a ddisgwylir.

Bydd pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cael cydsyniad i ddarparu gofal a gwasanaethau fferyllol
- cynnwys, cefnogi a galluogi pob unigolyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am eu hiechyd, gofal a'u lles
- gwrando ar y person a deall ei anghenion a beth sy'n bwysig iddo ef neu hi
- rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i'r person mewn modd y gall ei deall, fel y gall wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus
- ystyried yr effaith ar eu hymarfer, boed a ydynt yn darparu gofal yn uniongyrchol ai peidio
- parchu a diogelu urddas person
- cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth, a pharchu gwahaniaethau diwylliannol - gan wneud yn siŵr bod pob person yn cael ei drin yn deg beth bynnag fo'i werthoedd a'i greddoau

- **cydnabod eu gwerthoedd a'u creddoau eu hunain ond peidio eu gorfodi ar bobl eraill**
- **cymryd cyfrifoldeb am sicrhau na chaiff gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn ei gyfaddawdu oherwydd gwerthoedd personol a chreddoau**
- gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

Bwriedir i'w canllaw hwn:

- adlewyrchu'r ystod eang o sefyllfaoedd pan allai crefydd, gwerthoedd personol neu greddoau gweithiwr fferyllol proffesiynol effeithio ar ei barodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau penodol
- helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddeall beth mae'n ei olygu i gymryd cyfrifoldeb am sicrhau na chaiff gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn ei gyfaddawdu
- amlinellu'r ffactorau allweddol y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol eu hystyried er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn derbyn y gofal y maent ei angen fel blaenoriaeth
- bod yn berthnasol boed gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn lleoliad gofal iechyd (megis ysbyty, llety diogel, cartref gofal, gofal sylfaenol neu leoliad fferyllfa gymunedol), lleoliad arall neu yn darparu gwasanaethau yn bersonol neu ar-lein

Mae gennym **ystod o ganllawiau** ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i gymhwysu ein safonau. Yn ogystal ag ystyried y canllaw hwn, dylai pob gweithiwr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd ddarllen ein canllaw ar gyfrinachedd.

Y fframwaith cyfreithiol

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol wneud yn siŵr eu bod yn cadw wedi'u diweddarau ac yn cydymffurfio â'r gyfraith, a gydag unrhyw bolisiau y GIG neu gyflogaeth a chyfrifoldebau contractiol eu cyflogwr sy'n berthnasol i'w maes gwaith penodol hwy.

Yng nghyd-destun crefydd, gwerthoedd personol a chredoau mewn fferylliaeth, mae'n bwysig bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall ac yn cadw at y fframwaith cydraddoldeb perthnasol a deddfwriaeth hawliau dynol.

Er enghraifft mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod unigolion rhag dioddef gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac aflonyddu, drwy naw 'nodwedd gwarchodedig'¹ sy'n cynnwys crefydd neu gred. Mae diogelwch yn berthnasol yn y gweithle, wrth ddarparu gwasanaethau ac mewn cyd-destunau eraill, ac mae'n amodol ar eithriadau diffiniedig.

Rydym yn cydnabod bod gan bob nodwedd warchodedig statws cyfartal. Mae'r canllaw hwn yn ymdrin yn benodol â chrefydd a chred yn ogystal â gwerthoedd personol, gan y gall y rhain effeithio'n benodol y penderfyniadau a wna gweithwyr proffesiynol wrth ymarfer. Mae hefyd yn bwysig nodi bod crefydd yn golygu, o fewn cyfraith cydraddoldeb, unrhyw grefydd, yn cynnwys diffyg crefydd. Mae cred yn golygu unrhyw gred grefyddol neu athronyddol, ac mae'n cynnwys diffyg cred.

¹ Y 'nodweddion gwarchodedig' yw: oed; anabled; aibennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.

Yn ogystal, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU. Mae Erthygl 9 yn gwarchod yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd. Mae'r hawl hwn yn amodol ar gymhwyster ac ni ellir ei ddefnyddio i gefnogi gweithredu sy'n amharu'n anghyfartal ar hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae'r deddfwriaeth yn y maes hwn yn gymhleth ac mae cyfraith achos sylweddol ac un sy'n datblygu i'w chael ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol. Nid mater i'n safonau na'n canllawiau cefnogi yw nodi'r gyfraith yn fanwl na rhoi cyngor cyfreithiol. Golyga hyn bod yn rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddeall sut mae'r gyfraith yn berthnasol iddynt hwy a cheisio cyngor cyfreithiol pan fo'i angen arnynt.

Rhaid i gyflogwyr hefyd gadw at y gyfraith cyflogaeth, hawliau dynol a chydraddoldeb, ac ni ddylent wahaniaethu yn erbyn gweithwyr fferyllol proffesiynol oherwydd eu gwerthoedd, neu greddau yn cynnwys crefydd, datganedig neu ganfyddedig.

1. Crefydd, gwerthoedd personol a chredoau mewn fferylliaeth

Rydym yn cydnabod ac yn parchu bod crefydd, gwerthoedd personol a chredoau gweithiwr fferyllol proffesiynol yn aml yn ganolog i'w bywyd ac y gall wneud cyfraniad cadarnhaol iddynt o ran darparu gofal diogel ac effeithiol i boblogaeth amrywiol. Mae'n bwysig bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn rhoi ystyriaeth i'w crefydd, gwerthoedd personol a chredoau eu hunain - yn ogystal â rhai pobl eraill - pan fyddant yn delio â chydweithwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, ac yn deall sut y mae'n bosibl i'r rhain ryngweithio gyda, ac effeithio ar ddarpariaeth gofal.

Mewn rhai achosion gall crefydd, gwerthoedd personol a chredoau gweithiwr fferyllol proffesiynol ddylanwadu ar eu hymarfer o ddydd i ddydd, yn benodol a ydynt yn teimlo y gallant ddarparu rhai gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, wasanaethau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- atal cenhedlu (arferol neu frys)
- meddyginiaethau ffrwythlondeb
- therapiau hormonaidd
- iechyd meddwl a lles
- camddefnydd sylweddau
- iechyd rhywiol

Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol yr hawl i ymarfer yn unol â'u crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau cyhyd â'u bod yn gweithredu yn ôl cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn gwneud yn siŵr na chaiff gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn ei gyfaddawdu.

Ni ddylai gweithiwr fferyllol proffesiynol wahaniaethu yn erbyn person ar sail ei grefydd, gwerthoedd personol neu gredoau ei hun - na rhai'r person hwnnw - nac ar sail diffyg crefydd neu gred. Dylai fod yn sensitif i ffactorau diwylliannol, cymdeithasol crefyddol a chlinigol, a chydabod y gall y rhain lywio dewisiadau person.

Mae'n bwysig bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cyflogwyr a'u cydweithwyr i ystyried sut y byddant yn ymarfer yn unol â'u crefydd gwerthoedd personol a chredoau heb gyfaddawdu'r gofal. Mae hyn yn cynnwys meddwl ymlaen llaw am y meysydd o fewn eu hymarfer a allai gael eu heffeithio arnynt, a gwneud y trefniadau angenrheidiol fel na fyddant yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle gall gofal person gael ei gyfaddawdu.

Os bydd gweithiwr fferyllol proffesiynol yn anfodlon darparu rhai gwasanaeth, dylai gymryd camau i wneud yn siŵr bod y person sy'n gofyn am ofal yn ganolbwynt i'w broses gwneud penderfyniadau, fel y gall y person gyrchu'r gwasanaeth sydd ei angen arno mewn modd amserol ac yn ddirwystr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ystyried unrhyw derfynau amser neu rwystrau i gyrchu meddyginiaethau neu wasanaethau eraill, yn ogystal ag unrhyw effaith andwyol ar y person.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â beth sy'n glinigol briodol i'r unigolyn, a thrafod dewisiadau amgen

gyda'r person, os oes angen. Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol gadw mewn cof y gwahaniaeth rhwng crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau a barn glinigol broffesiynol.

1.1 Cymryd cyfrifoldeb

Bydd pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau nad yw gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn yn cael ei gyfaddawdu gan werthoedd personol neu gredoau. Bydd sut y caiff hyn ei wneud yn dibynnu ar y sefyllfa unigol, ac anghenion ac amgylchiadau penodol y person sy'n gofyn am y gofal.

Rydym am fod yn glir y gall atgyfeirio at weithiwr iechyd proffesiynol eraill fod yn opsiwn priodol, a gall hyn gynnwys trosglwyddo at fferyllydd arall yn yr un fferyllfa neu ddarparwr gwasanaeth, neu mewn un gwahanol.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a yw atgyfeiriad yn briodol ym mhob sefyllfa unigol, a chymryd cyfrifoldeb am ganlyniad gofal y person. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith eu penderfyniad ar y person sy'n ceisio gofal, a bodloni eu cyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae nifer y ffactorau i weithwyr fferyllol proffesiynol eu hystyried wrth benderfynu a yw atgyfeiriad yn briodol o dan yr amgylchiadau. Yn benodol, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol wneud yn siŵr:

- bod pobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt fel blaenoriaeth
- y darperir yr holl wybodaeth berthnasol i bobl er mwyn eu helpu i gyrchu'r gofal sydd ei angen arnynt, a

- bod pobl yn cael eu trin fel unigolion, yn deg a gyda pharch

Efallai na fydd atgyfeiriad yn briodol ym mhob sefyllfa: er enghraifft os nad yw gwasanaeth yn hygyrch neu ar gael yn hwylus mewn man arall ar gyfer y person, neu, oherwydd bod y person yn agored i niwed byddai atgyfeirio i bob pwrpas yn rhwystro mynediad amserol at y gwasanaeth. Eto, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu beth sy'n briodol mewn achosion unigol, a chadw cofnod o'r penderfyniadau hyn, yn cynnwys unrhyw drafodaethau gyda'r person sy'n ceisio gofal.

2. Ffactorau i'w hystyried

Isod ceir rhai o'r ffactorau allweddol y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol feddwl amdanynt wrth ddarparu gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle gallai crefydd, gwerthoedd personol a chredoau effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau.

2.1 Lleoliad gwaith ac ystod o wasanaethau

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol i wneud yn siŵr bod y person sy'n gofyn am ofal yn gallu derbyn neu gyrchu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol feddwl ymlaen llaw am yr ystod o wasanaethau y gallant eu darparu, y rolau y maent yn teimlo y gallant eu cyflawni, a sut i drafod ceisiadau am wasanaethau yn sensitif.

Ni ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol yn fwriadol roi eu hunain mewn sefyllfa lle byddant yn amharod i ddarparu neu drefnu gofal amserol ar gyfer person. Dylent ystyried a yw hyn yn golygu, mewn rhai achosion, na fydd rhai rolau proffesiynol yn briodol iddynt hwy.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol hefyd ystyried:

- pa mor addas yw lleoliad, amgylchedd ac oriau gwaith y rôl y maent yn dewis gweithio ynddi: er enghraifft fferyllfa ddiarffordd mewn ardal wledig, neu un sydd â rota tu allan i oriau
- yr ystod lawn a'r math o wasanaethau y mae eu fferyllfa wedi'i chontractio i'w darparu, yn cynnwys a yw'r rhain yn cael eu darparu yn rheolaidd neu'n achlysurol, ac
- a fyddant yn gweithio ar eu pen eu hunain a'u bod yn ymwybodol o weithwyr fferyllol

- proffesiynol lleol eraill a fydd yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gwasanaeth os ydynt yn teimlo na allant wneud hynny, a beth yw oriau agor y darparwyr gwasanaeth eraill

2.2 Agoredrwydd rhwng y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'u cyflogwr

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol weithio mewn partneriaeth gyda'u cyflogwyr a'u cydweithwyr i greu amgylchoedd gwaith agored a gonest. Dylent fod yn agored gyda'u cyflogwr ynglŷn â sut y gallai eu crefydd, gwerthoedd personol neu greddoau effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau fferyllol.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol hefyd:

- ddweud wrth eu cyflogwr, cyn gynted â phosibl, os gallai eu crefydd, gwerthoedd personol neu greddoau eu hatal rhag darparu rhai gwasanaethau fferyllol, a
- gweithio mewn partneriaeth gyda'u cyflogwr i wneud yn siŵr y caiff trefniadau digonol a phriodol eu rhoi ar waith

2.3 Gwneud gofal yr unigolyn yn flaenoriaeth

Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol rôl bwysig mewn trin pob person fel unigolyn, addasu'r gofal i ddiwallu eu hanghenion, a rhoi'r person wrth galon eu proses gwneud penderfyniadau. Dylent;

- weithio gyda'r person sy'n ceisio gofal, ac eraill a allai fod angen cael eu cynnwys, fel bod y person yn gallu dod i benderfyniad gwybodus

- ynglŷn â sut y gall gyrchu'r gofal a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno
- deall anghenion y person ac unrhyw rwystrau penodol y gallai eu hwynebu
- nodi'r dewisiadau sydd ar gael i'r person, a pheidio â thybio bod y person yn gwybod am y rhain
- gwirio bod y person yn deall ystod lawn y wybodaeth, yn cynnwys unrhyw risgiau sylweddol a allai fod yn gysylltiedig â'r gofal y mae'n ei geisio neu argymhellion y gweithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i'r person dderbyn gofal
- bod yn agored i gael trafodaethau ynglŷn â sut y gall crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau person fod yn berthnasol i'w ofal: er enghraifft drwy roi cyngor ar gymryd meddyginiaethau yn ystod cyfnodau ymprydio neu roi cyngor ar gyflenwi meddyginiaethau heb sail anifeiliaid, a
- chydabod pryd y gallai person fod angen gofal neu gyngor ychwanegol - er enghraifft, person dan straen neu agored i niwed neu mewn mater sy'n ymwneud â diogelwch - a gweithredu lle bo angen
- cyfathrebu'n broffesiynol a gyda pharch
- addasu eu cyfathrebu i ddiwallu anghenion y person maent yn cyfathrebu ag ef
- ystyried pa mor briodol yw iaith eu corff, tŷn eu llais a'u geiriau
- diogelu, parchu a chynnal preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd y bobl sy'n gofyn am ofal, a gwneud yn siŵr na wneir i'r person deimlo embaras, trallod nac yn anghyfforddus


2.4 Trafod ceisiadau yn sensitif

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn sensitif yn y modd y maent yn cyfathrebu â phobl sy'n gofyn am ofal a dim awgrymu na mynegi anghymeradwyaeth neu feirniadaeth. Wrth drafod ceisiadau dylent:

- wneud yn siŵr y caiff y person ei drin yn sensitif drwy ddefnyddio cyfleusterau neu drefniadau priodol, megis ystafell ymgynghori os oes un ar gael

3. Cwestiynau i'w gofyn i'ch hun

Isod ceir rhai cwestiynau allweddol y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ofyn iddynt eu hunain pan fyddant yn meddwl sut y gallant sicrhau a dangos eu bod wedi darparu gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn yn y cyd-destun hwn:



4. Cyflogwyr a gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cydweithio

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau pwysig i greu a chynnal amgylchedd wedi'i ganoli ar yr unigolyn, a sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu'n ddiogel ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried anghenion y bobl yn eu hardal a sut gall y fferyllfa fodloni orau eu disgwyliadau a'u hanghenion fel blaenoriaeth.

Hefyd, mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau tuag at weithwyr fferyllol proffesiynol a'r tîm fferyllol ehangach. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin ag urddas a pharch yn y gweithle a dylai cyflogwyr fod yn sensitif i grefydd, gwerthoedd personol a chredoau gweithwyr fferyllol proffesiynol, a chreu a chynnal amgylchoedd gwaith teg. Rhaid i gyflogwyr gadw at gyfraith cyflogaeth, hawliau dynol a chydraddoldeb berthnasol. Ni ddylent wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn gweithwyr fferyllol proffesiynol oherwydd eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau datganedig neu ganfyddedig.

Rhaid i gyflogwyr gael trefn lywodraethu a phrosesau rheoli staff ar waith fel y gallant gefnogi a galluogi gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddarparu gofal parhaus mewn modd anwahaniaethol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau fferyllol drwy gydol oriau agor y fferyllfa. Dylent ystyried ac adolygu'r prosesau gweithle hyn i sicrhau bod y rhain yn briodol ac yn unol â'r gyfraith.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol a gyflogir neu sy'n chwilio am gyflogaeth gael sgysiau agored a gonest gyda'u cyflogwyr ynglŷn ag unrhyw ffyrdd y gallai eu crefydd, gwerthoedd

personol neu gredoau effeithio ar eu parodrwydd i ddarparu rhai gwasanaethau fferyllol. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr i roi ffyrdd o weithio ar waith er mwyn sicrhau darpariaeth gyson o wasanaethau a chydymffuriad gyda'u contract GIG. Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol drafod gyda'u cyflogwr unrhyw drefniadau angenrheidiol all fod eu hangen, fel na effeithir yn andwyol ar y gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan eu gwerthoedd personol a chredoau.

Y tîm fferyllol yn aml yw'r man cyswllt cyntaf felly dylai cyflogwyr wneud yn siŵr bod y tîm yn ymwybodol o'r canllaw hwn. Dylai cyflogwyr hefyd wneud yn siŵr bod y tîm yn deall pwysigrwydd trin pobl yn sensitif pan fyddant yn gwneud cais am wasanaeth neu ofal fferyllol sydd efallai ddim yn unol â'u crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau, fel na chaiff gofal y person ei gyfaddawdu.

Mae swm sylweddol o gyngor a chanllawiau ar gael o ffynonellau proffesiynol eraill i helpu cyflogwyr i ddeall a chymhwysu'r gyfraith yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar gyfer cyflogwyr ynglŷn â'u cyfrifoldebau yn y gweithle, hawliau cyflogeion (yn cynnwys ymgeiswyr am swyddi) a hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

Ffynonellau eraill gwybodaeth

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau gan gyrff proffesiynol, darparwyr yswiriant indemniad a gan gyrff annibynnol eraill megis y rhai a restrir isod:

- ACAS – ***Crefydd neu gred a'r gweithle***
- **Cymdeithas Technegwyr Fferyllol, DU**
- **Cyngor ar Bopeth**
- **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ***Canllaw crefydd neu gred ar gyfer cyflogwyr***
- **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Yr Alban**
- **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru**
- **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**
- **Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd**
- **Cymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol**
- **Cymdeithas Fferyllol Frenhinol**

Deddfwriaeth Berthnasol

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Deddf Hawliau Dynol 1998**

Os oes gennych gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â'n Tîm Polisi a Safonau:

**Policy and Standards Team
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London
E14 5LQ**

0203 713 8000

standards@pharmacyregulation.org

Rydym hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar bynciau eraill y byddech efallai'n eu gweld yn ddefnyddiol:

www.pharmacyregulation.org/standards/guidance



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org